

Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (01/10/18) – Eitem 7 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin

Dull Gweithredu Cyffredinol

Y polisi a ddilyniir gan weinyddiaethau'r DU ar hyn o bryd mewn perthynas â'r holl drafodaethau a chyd-drafodaethau sy'n gysylltiedig â'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yw bod gennym ran i'w chwarae yn y broses o wneud penderfyniadau ac, felly, tan y byddwn yn gadael yr UE, byddwn yn parhau i gyflawni ein busnes beunyddiol yn y modd arferol.

I'r graddau hynny, byddwn yn parhau i gyfrannu at safbwynt y DU mewn perthynas â'r materion allweddol canlynol yn yr UE:

- Y cyfnod cyn cyfarfod Cyngor Pysgodfeydd yr UE ym mis Rhagfyr
- Trafodaethau ynghylch cwotâu a chyfleoedd dal pysgod ar gyfer 2019
- Rhwymedigaeth Ianio'r UE a'r cynlluniau gwaredu mewn Dyfroedd Gogledd-orllewinol ar gyfer 2019 a thu hwnt
- Yr adolygiad o fesurau Cadwraeth Dechnegol yr UE a'r Rheoliad Rheoli.

Cwota

Y sefyllfa yn 2018

Mae'n ymddangos bod y dyraniadau cwota a glustnodwyd i Lywodraeth Cymru ar ddechrau'r flwyddyn (a hefyd y cyfnewidiadau dilynol a wnaed i sicrhau cwota ychwanegol) yn galluogi cychod o dan 10m o Gymru i bysgota am bob rhywogaeth tan ddiwedd y flwyddyn. Yr unig nifer y mae'n rhaid i ni ei monitro'n agos yw morgathod lle mae fflyd o dan 10m Cymru yn cymryd tua 50%.

Cynigion ar gyfer 2019

Mae Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr wedi llunio ei gyngor ar gyfer 2019 mewn perthynas â'r rhywogaethau masnachol mawr ac mae'r sefyllfa'n ffafriol i Gymru ar y cyfan. Bydd llawer yn dibynnu ar y trafodaethau yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr ond mae'r canlyniadau canlynol yn debygol mewn perthynas â Dyfroedd Gogledd-orllewinol:

Cynnydd mewn lledod chwithig, lledod coch, penfreision a hadogiaid yn VIIa.

Parhad mewn gwyniaid môr, morleisiaid, penwaig a morgathod.

Lleihad mewn penfreision yn VIIb-k (lle y cynigir mai sero fydd cyfanswm y ddalfa a ganiateir), yn ogystal â lleihad bach mewn lledod chwithig yn VIIf-g (6%) a hadogiaid yn VIIb-k (9%)

Yn amlwg, mae'r achosion lle mai sero yw cyfanswm y ddalfa a ganiateir yn broblem o ran y posibilrwydd y gallai 'dagu' mynediad at rywogaethau eraill. Mae hon yn broblem fawr i holl fflydoedd yr UE sy'n pysgota yn y Môr Celtaidd a'r Aelod-wladwriaethau, ac mae'r Pwyllgor Cynghori ar Ddyfroedd Gogledd-orllewinol a'r UE yn trafod ffyrdd o liniaru'r effeithiau.

Cynhelir y cyfarfod nesaf i randdeiliaid yn y DU cyn cyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr yn Llundain ganol mis Tachwedd. Cynigir sawl toriad cwota ar gyfer Môr y Gogledd ac, yn ddiamau, bydd y materion hyn yn rhan flaenllaw iawn o'r trafodaethau. Bydd y Comisiwn yn llunio ei gynnydd cychwynol ar gyfer cyfleoedd pysgota yn 2019 ychydig ddyddiau cyn hyn. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid yng Nghymru.

Dalfeydd draenogiaid y môr hamdden – cyfyngiad ar gyfer 2018

Grŵp Cyngtori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (01/10/18) – Eitem 7

Mae'r Comisiwn wedi cytuno ar ddiwygiad i'r cyfyngiadau ar bysgota draenogiaid y môr yn 2018 gan bysgotwyr hamdden. Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2018, caniateir i enweirwyr hamdden gadw un pysgodyn y pen fesul diwrnod. Bydd hyn yn gymwys wrth bysgota o gwch neu o'r lan.

Pysgota draenogiaid y môr yn 2019

Mae'r cyngor gan Gyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr ar gyfer 2019* wedi cael ei gyhoeddi ac mae'r stoc yn dal i fod mewn cyflwr difrifol gyda'r biomas stoc silio yn isel o hyd. Fodd bynnag, mae'r wyddoniaeth yn fwy addawol na'r blynyddoedd blaenorol ac ystyrir bod marwoldeb y stoc bellach ychydig yn is na'r hyn sydd ei angen i sicrhau cynnyrch cynaliadwy mwyaf. Gan mai felly y mae, nid yw Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr yn argymhell dalfa o sero yn 2019. Mae'r trafodaethau yn dal i fynd rhagddynt ynghylch sut y caiff hyn ei adlewyrchu yn y mesurau y cytunir arnynt ar gyfer 2019. Ond, byddwn yn dadlau y byddai rhywfaint o hyblygrwydd cynyddol gyda'r cyfyngiadau sgil-ddalfa anorfod i leihau gwared yn bosibl, yn yr un modd ag ystyriaeth newydd i gynnwys darpariaeth sgil-ddalfa anorfod ar gyfer gweithrediadau rhwydi drysu sefydlog ar y lan. Hefyd, byddwn yn cefnogi'r syniad o ailsefydlu cyfyngiad ar gyfer genweirwyr hamdden yn llawn.

Fodd bynnag, bydd angen i unrhyw lacio ar y cyfyngiadau dal fod yn gymesur ac mae'n annhebygol y caniateir unrhyw bysgota bwriadol neu bysgota masnachol wedi'i dargedu am ddraenogiaid y môr ar wahân i gychod sydd ag awdurdodiad bachyn a lein cyfredol.

Rydym wedi anfon yr adroddiadau ar doreth o ddraenogiaid y môr ifanc a welwyd yn nyfroedd y glannau yng Nghymru ymlaen. Mae hyn yn dystiolaeth o ddsbarthiadau silio blwyddyn 2013 a 2014 yn symud gan ymddangos mewn niferoedd a chredir y dylai'r pysgod hyn gyrraedd maint silio mewn niferoedd sylweddol yn 2021.

Mae'r DU, fel rhan o grŵp y Dyfroedd Gogledd-orllewinol o Aelod-wladwriaethau, wedi dadlau bod draenogiaid y môr yn 'rhywogaeth a waherddir' sydd â rhanddirymiadau a bennir yn Erthygl 9 o Reoliad Cyfleoedd Pysgota 2018 (Rheoliad y Cyngor (UE) 2018/120). Ni chaiff ei rheoli'n bennaf drwy gyfyngiadau dal a chwotâu. Felly, credwn nad yw draenogiaid y môr yn dod o dan y rhwymedigaeth lanio. Ymddengys fod y Comisiwn yn cydymdeimlo â'r dull hwn ac y bydd Erthygl 9 (gydag addasiadau posibl) yn cael ei chadw yn 2019.

* Gweler y ddogfen atodedig ar Gyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr yn Atodiad 1.

Rhwymedigaeth Lanio

Mae cynnydd wedi'i wneud rhwng Aelod-wladwriaethau'r Dyfroedd Gogledd-orllewinol a'r Comisiwn i gytuno ar Gynllun Gwaredu ar gyfer y Dyfroedd Gogledd-orllewinol a gaiff ei weithredu gan y Ddeddf Ddirprwyedig. Pan fydd ar waith, byddwn yn rhoi cyngor i'r diwydiant a rhanddeiliaid ehangach ar ei weithredu.

Yn ffodus, mae'r rhan fwyaf o'r stociau sydd o ddiddordeb i bysgotwyr yng Nghymru yn destun eithriadau gallu i oroesi ac eithriadau eraill nad ydym yn rhagweld y byddant yn achosi problemau o ran cydymffurfio â'r polisi hwn. Mae'n debygol y bydd mwy o faich o ran cyfrif am ddalfeydd dieisiau ond mae'r rhagolygon y bydd niferoedd mawr yn pentyrru ar y lan wedi diflannu i raddau helaeth.

Rydym wedi sicrhau eithriadau rhag gormodedd gwaethaf y mesurau technegol a gyflwynwyd wrth geisio lleihau gwaredu yn y Môr Celtaidd.

Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (01/10/18) – Eitem 7

Fodd bynnag, mae rhai problemau o ran cyfyngu ar gwotâu rhywogaethau wedi codi yn y Môr Celtaidd o ganlyniad i'r cyngor heriol ar stociau y cyfeirir ato uchod. Caiff ffyrdd o ddatrys y materion hyn eu hystyried yn y drafodaeth cyn ar yn ystod cyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr.

Cramenogion Wyog (Cimychiaid a Chimychiaid Coch)

1. Nodyn Cefndir

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig Rheoliad Cadwraeth Dechnegol newydd sy'n nodi yn Atodiad 1 bod y canlynol wedi'i wahardd:

- pysgota, cadw a glanio cimychiaid coch (*Palinuridae spp.*) benyw wyog a chimychiaid (*Homarus gammarus*) benyw wyog yn holl ddyfroedd yr Undeb, ac eithrio at ddibenion ailstocio'n uniongyrchol neu ail-leoli;

Mae "wyog" mewn perthynas â chimychiaid neu gimychiaid coch yn golygu eu bod yn llawn wyau ar eu cynffon neu ran allanol arall o'u corff neu eu bod yn y cyfryw gyflwr ag sy'n dangos eu bod yn llawn wyau pan gawsant eu dal.

Gofynion cysylltiedig yr UE:

Dim ond cimychiaid/cimychiaid coch cyfan y gellir eu cadw ar longau, a dim ond rhai cyfan y gellir eu glanio.

2. Y ddeddfwriaeth bresennol yn Lloegr

Cyflwynodd Defra Orchymyn Cimychiaid a Chimychiaid Cochion (Gwahardd eu Pysgota a'u Glanio) (Diwygio) (Lloegr) 2017. Mae'n golygu bod y canlynol yn drosedd:

- Pysgota cimychiaid wyog neu gimychiaid coch wyog yn nyfroedd Lloegr
- Glanio unrhyw gimychiaid wyog neu gimychiaid coch wyog (neu a oedd yn llawn wyau pan gawsant eu dal) mewn porthladd yn Lloegr, ni waeth ble y cawsant eu dal, hyd yn oed yn nyfroedd Cymru.
- Cadw cimychiaid neu gimychiaid coch wyog ar longau yn nyfroedd Lloegr

Daeth y Gorchymyn hwn i rym ar **1 Hydref 2017**.

3. Y sefyllfa yn Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth Glannau Lloegr

Is-ddeddfau Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau ar gimychiaid wyog

Awdurdodau Pysgodfeydd	Crynodeb	Cychwyn
Cernyw	Ni chaniateir symud unrhyw gimychiaid wyog	2001
Dyfnaint a Hafren	Ni chaniateir symud unrhyw gimychiaid wyog	1998
Gogledd-orllewin Lloegr (Cumbria)	Ni chaniateir symud unrhyw gimychiaid wyog	1993

Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (01/10/18) – Eitem 7

Northumberland	Ni ellir pysgota, symud, cadw na glanio cimychiaid wyog (na'u storio, eu cario na'u cludo cyn cyrraedd y man gwerthu cyntaf) yn yr ardal	2017
De Lloegr	Ni chaniateir symud unrhyw gimychiaid wyog	2009
Sussex	Ni chaniateir symud cimychiaid wyog o'r bysgodfa na'u cadw ar	2015
Caint ac Essex	Ni chaniateir symud unrhyw gimychiaid wyog	Cyn 2011

Nid yw'r rhestr hon o is-ddeddfau yn hollgynhwysfawr. Mae manylion llawn ar wefannau'r gwahanol Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau.

4. Mesurau rheoli presennol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon

Nid oes deddfwriaeth benodol ar hyn o bryd yn **yr Alban na Gogledd Iwerddon** sy'n ymwneud â chimychiaid wyog. Fodd bynnag, nid yw'r ddwy weinyddiaeth ddatganoledig hyn wedi gwrthwynebu cynnig y Comisiwn.

5. Y sefyllfa bresennol yng Nghymru

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar y mater o ddal, cadw a glanio cimychiaid a chimychiaid coch fel rhan o becyn ehangach yr adolygiad o fesurau rheoli cramenogion yng Nghymru yn 2014.

O ganlyniad i'r ymatebion a ddaeth i law, ni chafodd elfen y pecyn sy'n ymwneud â physgod cregyn wyog ei gweithredu i fod yn rhan o 2015 Rhif 2076 (Cy. 312) PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU, CADWRAETH PYSGOD MÔR Gorchymyn Cramenogion Penodedig (Gwahardd eu Pysgota, eu Glanio, eu Gwerthu a'u Cludo) (Cymru) 2015 yn y diwedd.

Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw gyfyngiadau ar ddal cimychiaid (na chimychiaid coch) wyog, eu cadw ar longau na'u glanio yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae is-ddeddfau blaenorol eraill Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr yn gymwys o hyd i bysgota hamdden â chewyll, torri rhicyn a meintiau glanio cadwraeth lleiaf.

Yn ei ddatganiad yn y cyfarfod llawn ar Gynllun Gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd Cymru ym mis Tachwedd 2013, amlinellodd Alun Davies AS uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o ran rheoli pysgodfeydd yn y tymor hwy. Roedd yr uchelgeisiau hynny yn cynnwys y bwriad i adolygu dulliau rheoli pysgodfeydd cramenogion ledled Cymru ymhellach fel rhan o adolygiad Cam II.

Byddai adolygiad Cam II yn ymchwilio i'r posibilrwydd o roi mesurau cadwraeth ychwanegol ar waith (gan gynnwys gwahardd y broses o ddal, cadw a glanio cimychiaid a chimychiaid coch wyog yn ôl pob tebyg).

6. Y sefyllfa bresennol o ran cynnig y Comisiwn Ewropeaidd

Grŵp Cyngkori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (01/10/18) – Eitem 7

Mae cynigion y Comisiwn Ewropeaidd bellach wedi disodli bwriadon Llywodraeth Cymru o ran yr agwedd hon ar Gam II. Fel rhan o ddiwygiadau ehangach i Rheoliad Cadwraeth Dechnegol y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, mae wedi cynnig gwahardd y broses o bysgota, cadw a glanio cimychiaid a chimychiaid coch wyog ledled Ewrop. Yr unig eithriad y gellid ei ystyried yw pan fydd y pysgod yn cael eu defnyddio at ddibenion ailstocio'n uniongyrchol neu ail-leoli.

Ar hyn o bryd, mae testun y Rheoliad Cadwraeth Dechnegol yn cael ei drafod o hyd gan y gweithgorau amrywiol yn Senedd Ewrop, y Cyngor Ewropeaidd a'r Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth yn dod i'r amlwg o unrhyw wrthwynebiad cyffredin i'r cynnig.

Nid oes amserlen ar gyfer mabwysiadu Rheoliad Technegol newydd ac mae sawl mater dadleuol heb ei ddatrys o hyd – a hynny ynghylch maint rhwydi a'r rhwymedigaeth lanio/gwaharddiad gwaredu yn bennaf. Mae'n debygol y bydd gennym well syniad o'r cynnydd tua diwedd yr hydref a gallem ysgrifennu i'r diwydiant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf bryd hynny. Nid chaiff cimychiaid na chimychiaid coch eu cynnwys yn y rhwymedigaeth lanio ar gyfer 2019 felly gellir eu taflu yn ôl i'r môr os oes angen.

Os caiff y cynnig hwn ei ddatblygu a'i fabwysiadu mewn deddfwriaeth Ewropeaidd (ac os bydd cefnogaeth eang iddo gan lawer o Aelod-wladwriaethau'r UE, y Comisiwn, Senedd Ewrop ac yng ngweinyddiaethau datganoledig eraill y DU) ni fyddai gan Lywodraeth Cymru unrhyw ddewis ond rhoi'r rheolau newydd ar waith.

7. Y sefyllfa bresennol yng Nghymru a Lloegr

Ers y cynnig cychwynnol ryw ddwy flynedd yn ôl, rydym wedi pwysleisio pryderon ein diwydiant a'r effeithiau economaidd ar bysgotwyr Cymru i Defra. Yn ogystal, rydym wedi esbonio'r sail dros wrthod y rheoliad ynglŷn â physgod wyog fel rhan o'n hymgyngoriad ar y ddeddfwriaeth newydd ar gramenogion yng Nghymru yn 2015.

Fodd bynnag, mae Lloegr wedi ymdrin â'r polisi mewn ffordd hollol wahanol ac wedi cyflwyno'r gwaharddiad yn Lloegr er mwyn atgyfnerthu is-ddeddfau Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau. Yn y cyfamser, mae Cymru a Defra/Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau wedi parhau i ddilyn dau lwybr ar wahân.

Mae swyddogion wedi trafod a yw'n bosibl ceisio rhyw fath o ddiwygiad i'r dyfarniad Ewropeaidd yn rhanbarthol drwy'r Grwpiau Dyfroedd Gorllewinol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd hyn sawl blwyddyn i ffwrdd, ac ni fyddai gweinyddiaethau eraill y DU na'r Aelod-wladwriaethau eraill yn y Grŵp yn cefnogi hyn. Ni fyddai'n cael ei gymeradwyo'n wyddonol ychwaith. Byddai'r tebygolrwydd o lwyddo yn fach.

8. Eithriadau rhag y mesurau newydd

Mae eithriadau rhag y mesurau newydd ar gael at ddibenion gwyddonol sy'n ymwneud ag ailstocio'n uniongyrchol neu ail-leoli. Mae 'deorfeydd' cimychiaid wedi cael goddefebau o'r fath yn y gorffennol, ond dylid nodi eu bod wedi'u heithrio rhag cael cyllid gan yr UE i gefnogi eu prosiectau.

Michael Jones
Medi 2018